Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Bil Pysgodfeydd y DU 2017-19
## Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2019



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6574**
E-bost: **Lorna.Scurlock@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Bil Pysgodfeydd y DU 2017-19
## Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2019

**Awduron:**
Lorna Scurlock

**Trosolwg o'r papur:**
Mae'r papur hwn yn edrych ar gyflwyno Bil Pysgodfeydd y DU a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cysylltiedig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n trafod prif elfennau'r Bil, ac ymatebion i'r Bil sy'n tynnu sylw at feysydd pryder rhanddeiliaid.

Mae crynodeb o'r Ail Ddarlleniad wedi'i gynnwys, ynghyd â chrynodeb o'r gwelliannau a gymeradwywyd o fewn y Bil fel y'i diwygiwyd. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r gwelliannau, ac fe'i trafodir yn y papur hefyd.

Bydd y papur hwn yn cael ei ddiweddaru gydag unrhyw ddatblygiadau yn y Bil.

# Contents

**1. Cyflwyniad ........ 1**

Deddfwriaeth Pysgodfeydd Cymru ........ 1

**2. Cymhwysedd Deddfwriaethol ........ 3**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ........ 3

**3. Prif elfennau'r Bil ........ 5**

Amcanion pysgodfeydd ........ 5

Cymryd rheolaeth yn ôl ........ 6

Cyfleoedd pysgota ........ 7

Cyllid ........ 8

Pwerau cyffredinol ........ 9

Cadwraeth forol ........ 10

**4. Ymateb i'r Bil ........ 11**

Amcanion a datganiadau pysgodfeydd ........ 11

Ymrwymiad i'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf ........ 12

Gwaith craffu ffurfiol ar is-ddeddfwriaeth ........ 12



**5. Crynodeb o'r Ail Ddarlleniad ........ 13**

Pwerau dirprwyedig ........ 13

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ........ 13

Cyngor ymgynghorol ........ 14

Mecanwaith datrys anghydfodau ........ 15

Trwyddedu llongau pysgota ........ 15

Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota ........ 16

Cyllid pysgodfeydd ........ 16

**6. Crynodeb o newidiadau'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus ........ 18**

Gwelliannau Llywodraeth y DU ........ 18

Cymal 39 - Cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 18

Cymal 40 - Cytundeb pysgodfeydd rhwng y DU a'r UE ........ 19

Cymal 41 - Gwelliannau y gellid bod wedi'u gwneud o dan bwerau presennol ........ 19

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ........ 20





# 1. Cyflwyniad

**Cafodd Bil Pysgodfeydd y DU** ('y Bil' o hyn ymlaen) ei **ddarlleniad cyntaf** yn Senedd y DU ar 25 Hydref 2018. Mae'r Bil yn cefnogi'r broses o symud i ffwrdd o **Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin** yr UE, ac mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r DU reoli ei dyfroedd ei hun, fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol o dan **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr** (UNCLOS).

Mae'n darparu nifer o bwerau a fydd yn galluogi Gweinidogion y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i gyflwyno is-ddeddfwriaeth. Mae **memorandwm pwerau dirprwyedig sy'n cyd-fynd â'r Bil** yn darparu mwy o fanylion am y pwerau a geisir.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi **papur briffio** ar y Bil.

Lansiodd **Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig** Tŷ›r Cyffredin ymchwiliad byr ar y cwmpas arfaethedig, y darpariaethau a›r pwerau yn y Bil. Cafodd dystiolaeth ysgrifenedig hyd at 26 Tachwedd 2018, ac mae wedi cael tystiolaeth lafar gan ystod o randdeiliaid, a DEFRA.

Ystyriwyd y Bil gan **Bwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ›r Cyffredin** rhwng 4 a 17 Rhagfyr. Cyhoeddwyd y Bil **fel y'i diwygiwyd** ar 18 Rhagfyr.

## Deddfwriaeth Pysgodfeydd Cymru

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth pysgodfeydd sy'n benodol i Gymru yn y dyfodol. Cadarnhawyd hyn gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd (bellach yn Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig), mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad ar **18 Gorffennaf 2018.**

Ailadroddodd hyn mewn **tystiolaeth ysgrifenedig** cyn iddi ymddangos gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 4 Hydref ar gyfer craffu ar Brexit:

> … bydd angen inni gyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn dilyn ymadael â'r UE i ddisodli deddfwriaeth etifeddol Ewropeaidd, y caiff y rhan fwyaf ohoni ei harbed gan fân ddiwygiadau sy'n ei gwneud yn rhywbeth 'gweithredadwy' yn hytrach na'r gyfraith orau, pan fydd unrhyw gyfnod gweithredu yn dod i ben. Yn benodol, bydd angen inni gymryd camau mewn perthynas â phennu cyfleoedd pysgota yng Nghymru, rheoli a gorfodi a gwyddoniaeth a thystiolaeth.
>
> Rydym yn barod i weithio gyda Defra ar ei chynigion ar gyfer pysgodfeydd yn Lloegr ac i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn cael effaith andwyol ar flaenoriaethau datganoledig.

Yn ystod y gwaith o **graffu ar y gyllideb gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ym mis Tachwedd 2018,** amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd ei bwriad i lansio ymgynghoriad 'Brexit a'n Moroedd' yn 2019:

> I'm going to consult on Brexit and our seas next year. You'll see a bit of a similarity to 'Brexit and our land', but we will obviously be consulting early next year on Brexit and our seas, and that will then influence the Welsh fisheries policy that we'll need post Brexit. Again, once we go out to consultation—it's like 'Brexit and our land'—we'll have to consider a lot of financial implications that come from that.

Ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi unrhyw ddatganiadau ar y Bil. Nid yw amseroedd yn y dyfodol ar gyfer Bil Pysgodfeydd Cymru, neu'r ymgynghoriad 'Brexit a'n Moroedd', yn hysbys.





# 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Y Bil yw'r cyntaf o **fframweithiau cyffredin deddfwriaethol** y DU gyfan o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru yn y dyfodol.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Ar 15 Tachwedd 2018 gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar y Bil. Mae'r Memorandwm yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Mae mwyafrif y Cymalau yn y Bil yn berthnasol i Gymru (ac eithrio 22-27).

Mae'r Bil yn creu elfennau deddfwriaethol sylfaenol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a chefnogi pysgodfeydd ar ôl Brexit. Nododd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn yn y Memorandwm:

> Bil ar lefel y DU yw'r unig ffordd briodol o gymhwyso'r darpariaethau hyn, oherwydd bod hynny'n darparu set unffurf o bwerau, rhwymedigaethau ac amcanion.
>
> …
>
> O dan y trefniadau datganoli presennol, ni fyddai Deddf gan y Cynulliad yn gallu gwneud yr holl ddarpariaethau fyddai eu hangen i wneud Bil ystyrlon. Mae hynny'n golygu ein bod yn dibynnu'n rhannol ar Fil Pysgodfeydd y DU ac yn rhannol ar Fil Pysgodfeydd Cymreig.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn pwysleisio cefnogaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru i'r Bil, ac eithrio Cymal 18 sy'n rhoi pwerau eang i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cwotâu'r DU. Dywed y Bil mai dim ond 'er mwyn cydymffurfio â'r ymrwymiadau rhyngwladol i bennu cyfleoedd pysgota yn y DU' y mae hyn. Nid yw Llywodraeth Cymru yn fodlon ar y Cymal am ei fod yn darparu pwerau eang i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cwotâu'r DU, a allai, fel y'u drafftiwyd, fod yn berthnasol i stociau sydd yn gyfan gwbl o fewn dyfroedd un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Mae dau faes pellach nad yw Llywodraeth Cymru yn teimlo eu bod wedi cael sylw digonol:

> Nid yw'r Bil yn lleddfu'n gofidiau ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol am faterion sy'n ymwneud â physgodfeydd y tu hwnt i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â chymhwysedd deddfwriaethol Gweinidogion Cymru, a fyddai'n golygu bod fframweithiau ledled y DU yn llai cymhleth wrth symud ymlaen.
>
> Carai Llywodraeth Cymru hefyd weld Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn cael ei ddiwygio er mwyn i Weinidogion Cymru gael newid yr amodau a roddir ar unrhyw drwydded yn unol â'r Ddeddf. Mae'n dweud y byddai hynny'n caniatáu iddi reoli pysgodfeydd Cymru mewn ffordd llawer mwy hyblyg ac ymatebol.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y materion hyn a materion eraill a bydd yn cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn ôl yr angen.

Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi 'nad oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil hwn'. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth ariannol arall.

Ni chafwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - ac ni chyhoeddwyd unrhyw asesiad effaith sy'n ymwneud â'r darpariaethau fel y maent yn ymwneud â Chymru.

Dyddiad cau y Cynulliad ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yw 12 Chwefror 2019.

Gosodwyd Memorandwm atodol mewn ymateb i welliannau i'r Bil, a oedd yn mynd i'r afael â rhai o bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch maint deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Trafodir y rhain yn ddiweddarach yn y papur hwn.





# 3. Prif elfennau'r Bil

Mae pysgodfeydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac mae'r Bil yn cynnwys nifer o bwerau y gall Gweinidogion Cymru a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill eu harfer, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Er mwyn cefnogi ymagwedd gyson tuag at reoli pysgodfeydd ledled y DU, mae'r Bil yn cynnwys rhai pwerau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu harfer mewn perthynas â materion datganoledig. Fodd bynnag, dim ond gyda chaniatâd y Gweinyddiaethau Datganoledig y gellir defnyddio'r pwerau hyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r Cymalau yn y Bil yn berthnasol i Gymru, ac maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddant felly yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

## Amcanion pysgodfeydd

Mae'r Bil yn gosod amcanion ar gyfer awdurdodau polisi pysgodfeydd, gan ddisodli'r amcanion sydd yn Erthygl 2 o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar hyn o bryd. Mae Cymalau 1 i 6 o'r Bil yn nodi amcanion pysgodfeydd y mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig anelu at eu cyflawni wrth bennu eu polisïau mewn dwy ddogfen bolisi newydd: Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) a Datganiad Pysgodfeydd yr Ysgrifennydd Gwladol (SSFS), sef:

- yr amcan cynaliadwyedd; sicrhau bod gweithgareddau pysgota a dyframaeth yn gynaliadwy yn amgylcheddol yn yr hirdymor.
- yr amcan rhagofalus; defnyddio'r dull rhagofalus wrth reoli pysgodfeydd.
- amcan yr ecosystem; sicrhau bod effeithiau negyddol gweithgareddau pysgota ar yr amgylchedd morol yn cael eu lleihau a bod gweithgareddau dyframaeth a physgodfeydd yn osgoi dirywio'r amgylchedd morol.
- yr amcan tystiolaeth wyddonol; cyfrannu at y gwaith o gasglu data gwyddonol a seilio polisi rheoli pysgodfeydd ar y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael.
- yr amcan taflu yn ôl; dileu achosion o daflu pysgod yn ôl yn raddol, fesul achos.
- yr amcan mynediad cyfartal. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob cwch pysgota yn y DU fynediad cyfartal at ddyfroedd y DU.

Mae'r amcanion a nodir yng Nghymal 1 yn adlewyrchiad o rai o amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a nodir yn Erthygl 2 o reoliad y Polisi (**Rheoliad (UE) Rhif 1380/2013**), sy'n cynnwys sicrhau bod pysgota a dyframaethu yn gynaliadwy yn amgylcheddol, yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n gyson â sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol a chyflogaeth, a defnyddio dull egwyddor ragofalus tuag at reoli pysgodfeydd. Mae'r amcanion sy'n ymwneud â thystiolaeth wyddonol a mynediad cyfartal yn ychwanegol at y rhai yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Mae Cymal 2 yn diffinio JFS, y mae'n rhaid i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd ei fabwysiadu, gan nodi sut y bydd eu polisïau'n cyflawni neu'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd a ddiffinnir yng Nghymal 1. Mae hefyd yn nodi'r gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi Datganiad Pysgodfeydd yr Ysgrifennydd Gwladol (SSFS), i nodi polisïau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

> (i) contributing to the achievement by 2020 of a good environmental status (within the meaning of the Marine Strategy Framework Directive).

Mae'r Cymal hwn hefyd yn diffinio Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod polisi pysgodfeydd i Gymru.

Yn hollbwysig mae Cymal 3 yn nodi bod yn rhaid i JFS gael ei baratoi gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd yn gweithredu ar y cyd, a rhaid i'r JFS a'r SSFS cyntaf gael eu paratoi a'u cyhoeddi cyn 1 Ionawr 2021. Rhaid gosod y JFS mewn drafft gerbron pob un o'r deddfwrfeydd er mwyn iddynt graffu arno, ac ymgynghori arno'n briodol. Mae Atodlen 1 yn nodi sut y dylid paratoi JFS ac SSFS a'u cyhoeddi.

Mae Cymalau 4 - 6 yn edrych ar welliannau, adolygu ac effaith y datganiadau.

Mae Atodlen 1 yn nodi'r broses ar gyfer ymgynghori ar y JFS drafft a'r SSFS. Yn achos y JFS, yn dilyn ymgynghoriad rhaid i bob awdurdod polisi pysgodfeydd gyflwyno drafft gerbron y ddeddfwrfa briodol, a rhaid iddo ymateb i unrhyw benderfyniadau neu argymhellion gan 'bwyllgor deddfwriaethol priodol'. Yn achos SSFS mae'r un broses yn berthnasol ond gosodir y drafft gerbron Dau Dŷ'r Senedd yn unig. Daw'r ddwy ddogfen i rym pan gânt eu cyhoeddi.





## Cymryd rheolaeth yn ôl

Mae Cymal 7 yn dileu'r hawliau awtomatig presennol i longau'r UE bysgota yn nyfroedd y DU. Drwy ddirymu Erthygl 5 o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, ac Atodiad 1 iddo, sy'n darparu ar gyfer mynediad cyffredin at ddyfroedd yr UE gan longau Aelod-wladwriaethau'r UE, bydd y DU yn rheoli mynediad cychod pysgota tramor i'w dyfroedd.

Mae Cymal 8 yn nodi'r trefniadau mynediad ar gyfer cychod pysgota tramor i bysgodfeydd Prydain h.y. drwy drwydded neu ddiben a gydnabyddir gan gyfraith ryngwladol.

Yn gyffredinol, mae Cymalau 9-17 ac Atodlen 2 yn atgyfnerthu ac yn egluro'r gyfraith bresennol o ran trwyddedu cychod pysgota, yn ogystal â gwneud rhai newidiadau polisi. Maent yn darparu newidiadau i'r drefn bresennol ar gyfer trwyddedu llongau'r DU, yn ogystal â gwneud darpariaethau ar gyfer trwyddedu cychod pysgota nad ydynt o'r DU yn nyfroedd y DU.

Mae Cymal 10 yn darparu ei bod yn fater i bob cenedl o'r DU drwyddedu eu llongau pysgota eu hunain - byddai Gweinidogion Cymru yn gallu rhoi trwydded pysgota mewn perthynas â llong bysgota o Gymru, ac yn y blaen.

## Cyfleoedd pysgota

Mae Cymal 18 yn nodi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu 'cyfleoedd pysgota', a ddiffinnir yn y Bil fel:

> (a) the maximum quantity of sea fish that may be caught by British fishing boats;
>
> (b) the maximum number of days that British fishing boats may spend at sea.

Y swm mwyaf a bennir fydd y 'cwota dal', a'r diwrnodau mwyaf a bennir fydd y 'cwota ymdrech'.

Mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cadw i'r Ysgrifennydd Gwladol at y 'diben o gydymffurfio â rhwymedigaeth ryngwladol' y DU. Gallai'r dibenion hyn gynnwys cytundebau gyda'r UE neu wladwriaethau arfordirol eraill, neu ymrwymiadau o dan UNCLOS.

Mae'r Cymal hwn yn disodli'r ddarpariaeth gyfredol yng nghyfraith yr UE sy'n caniatáu i'r Cyngor Ewropeaidd bennu cyfleoedd pysgota yn nyfroedd yr UE.

Mae Cymal 19 yn darparu na ellir ond gwneud penderfyniad o dan Gymal 18 ar ôl ymgynghori â'r 'awdurdodau cenedlaethol perthnasol', sef Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban, Adran Gogledd Iwerddon a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO).

Mae Cymal 20 y Bil yn nodi, yn ddarostyngedig i fân newidiadau, yr ystyrir y meini prawf o **Erthygl 17 y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin** wrth ddosbarthu cyfleoedd pysgota. Mae'r meini prawf yn Erthygl 17 y Polisi, fel y'i diwygiwyd gan Gymal 20, yn darllen fel a ganlyn:

> When distributing fishing opportunities for use by fishing boats, the relevant national authorities shall use transparent and objective criteria including those of an environmental, social and economic nature. The criteria to be used may include, inter alia, the impact of fishing on the environment, the history of compliance, the contribution to the local economy and historic catch levels. Within the fishing opportunities available for distribution by them, the relevant national authorities shall endeavour to provide incentives to fishing vessels deploying selective fishing gear or using fishing techniques with reduced environmental impact, such as reduced energy consumption or habitat damage. [Gwelliannau mewn italig]

At ddiben Cymal 20, yr 'awdurdodau cenedlaethol perthnasol' yw'r Ysgrifennydd Gwladol a'r MMO. Mae'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi nad yw Cymal 20 yn gwneud Erthygl 17 yn gymwys i'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill (gan gynnwys Gweinidogion Cymru), **ar eu cais hwy**. Mae hyn yn golygu bod y meini prawf yn Erthygl 17, fel y'u diwygiwyd gan Gymal 20 o'r Bil, ond yn gymwys yn Lloegr, ac felly dim ond awdurdodau pysgodfeydd Lloegr sy'n gorfod cymhwyso'r meini prawf hyn.

Mae Cymal 21 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cenedlaethol perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i arfer eu swyddogaethau pysgodfeydd er mwyn sicrhau na ragorir ar gyfleoedd pysgota'r DU.

## Cyllid

Ar hyn o bryd o dan aelodaeth y DU o'r UE a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, rhoddir cymorth ariannol drwy Gronfa Pysgodfeydd Morwrol Ewrop (EMFF). Mae Cymal 28 yn cyflwyno Atodlen 4, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi neu drefnu cymorth ariannol i unrhyw berson at ddibenion penodol, gan gynnwys ar gyfer:

> (a) the conservation, enhancement or restoration of the marine and aquatic environment;
>
> (b) the promotion or development of commercial aquaculture activities or commercial fish activities;





> (c) the reorganisation of businesses involved in commercial aquaculture activities or commercial fish activities;
>
> (d) contributing to the expenses of persons involved in commercial aquaculture activities or commercial fish activities;
>
> (e) the promotion or development of recreational fishing.

Mae paragraff 2 o Atodlen 4 yn nodi bod yn rhaid rhoi cymorth ariannol yn unol â chynllun a sefydlwyd gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Mae'r pwerau hyn ar gael mewn perthynas â Chymru, parth Cymru, neu gychod pysgota Cymru.

## Pwerau cyffredinol

Mae Cymal 31 yn rhoi pwerau eang i wneud darpariaethau ar faterion y mae'r UE yn eu rheoleiddio o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, sef:

(a) at ddiben gweithredu rhwymedigaeth ryngwladol y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â physgodfeydd, pysgota neu ddyframaeth;

(b) at ddiben cadwraeth; neu

(c) at ddiben y diwydiant pysgota.

Diffinnir 'diben cadwraeth' a 'diben y diwydiant pysgota, ac mae'r Cymal yn rhestru'r materion y mae'n rhaid i'r rheoliadau fod yn gysylltiedig â hwy.

Mae Cymal 33 yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifenyddion Gwladol er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer clefydau anifeiliaid dyfrol. Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw ddarpariaethau o dan y Cymalau hyn.

Fodd bynnag, mae Cymal 37 yn cyflwyno Atodlen 6, sy'n rhoi pwerau deddfu cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymalau 31 a 33. Mae paragraff 7(3) o Atodlen 6 yn cyfyngu ar y pwerau gwneud rheoliadau hynny gan Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn yr un modd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill, ac unrhyw bersonau priodol eraill, cyn gwneud darpariaethau o dan y Cymalau hyn.

## Cadwraeth forol

Mae Cymal 7 yn cyflwyno Atodlen 7, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchmynion mewn perthynas ag ecsbloetio pysgodfeydd môr, ac effaith pysgota ar gadwraeth forol.

Mae'r darpariaethau hyn yn disodli mesurau'r UE ar gyfer diogelu'r amgylchedd morol ym mharth alltraeth yr Aelod-wladwriaethau. Drwy ddiwygio *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*, mae Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud Gorchmynion mewn perthynas â Chymru ac ardal alltraeth Cymru at ddibenion cadwraeth.





# 4. Ymateb i'r Bil

Ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn, nid yw Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud sylwadau ar y Bil na chyhoeddi datganiad ysgrifenedig eto. Yn gyffredinol, derbyniwyd y Bil yn gadarnhaol gan y rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau pysgota. Dywedodd erthygl ddiweddar yn **Fishing News** fod arweinwyr y diwydiant pysgota yn rhoi 'croeso gofalus' i'r Bil, ond tynnodd sylw hefyd at y ffaith y bydd llawer o fanylion i'w datrys yn y misoedd sydd i ddod.

Mae'r Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Pysgotwyr (**NFFO**) yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael y cydbwysedd cywir rhwng fframwaith cyffredinol y DU ar gyfer pysgodfeydd a'r awdurdod a ddirprwyir i'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Trafodir pryderon allweddol y rhanddeiliaid isod:

## Amcanion a datganiadau pysgodfeydd

Er bod y rhanddeiliaid yn gyffredinol yn gefnogol o'r Bil, yn enwedig cynnwys yr amcanion ar wyneb y Bil, nodwyd gan nifer o'r rhanddeiliaid, gan gynnwys **GreenerUK**, fod y diffyg dyletswydd a roddir ar awdurdodau i gyflawni'r amcanion hyn yn 'eithriad sylweddol'. Dywed:

> This risks undermining the government's aim of delivering truly sustainable fisheries management and with it thriving, healthy stocks, and consumer confidence that UK seafood is sustainably produced.

Ategir hyn mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus gan **yr Athro Richard Barnes**, sy'n dweud y byddai'r amcanion yn cael eu cryfhau pe baent yn cael eu hailnodi fel dyletswyddau.

Amlygwyd yn yr **ail ddarlleniad** bod yr amcanion yn wannach na'r dyletswyddau presennol o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Fodd bynnag, mewn ymateb, dywedodd George Eustice AS fod y geiriad a ddefnyddir yng Nghymal 1 yn cael ei fenthyca'n bennaf o Reoliad yr UE, a'i fod yn:

> ...envisage[s] that the joint fisheries statement that flows from that—it is a legal requirement and details of it are set out in schedule 1 to the Bill—will define how we will deliver those sustainability objectives.

Er bod yn rhaid i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol arfer ei swyddogaethau yn unol â'r polisïau a geir mewn JFS, nid yw Cymal 2 yn nodi i ba raddau y mae'n rhaid i'r polisïau gyflawni'r amcanion pysgodfeydd.

### Ymrwymiad i'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf

Mae nifer o grwpiau amgylcheddol, gan gynnwys GreenerUK a **Cyswllt Amgylchedd Cymru** wedi galw am ymrwymiad i sicrhau na ellir pennu terfynau pysgota yn uwch na'r lefelau a argymhellir yn wyddonol a fyddai'n cyflawni'r amcan i adfer stociau pysgod i fio-màs iach.

Y targed cyfredol a nodir yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yw dod â gorbysgota i ben erbyn 2020, drwy sicrhau na ellir pennu terfynau pysgota uwchlaw'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf - y lefelau a argymhellir yn wyddonol a fyddai'n cyflawni'r amcan i adfer stociau pysgod i fio-màs iach.

Gan na fydd y DU yn rhan o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin mwyach ac wedi'i rhwymo gan yr ymrwymiad hwn, mae **GreenerUK** yn dadlau y byddai ei hepgor yn y Bil yn cynrychioli cymryd cam yn ôl o ran safonau amgylcheddol. Mae'n dweud bod ymrwymiad yn y Bil:

> ...is vital to protect against short-term political pressure to set catch limits higher than scientific advice, which would lead to overfishing and damage the health of our oceans.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus, er bod yr **NFFO** yn gefnogol o'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf, nid yw'n cytuno â chynnwys targed 2020 yn y Bil:

> ...if MSY is set as a rigid timebound objective it will, as with the CFP, prove unworkable. Setting quotas in mixed fisheries for sustainable fisheries management must take into account a number of different, and sometimes competing factors. This will not be helped if there is a legal requirement that elevates Maximum Sustainable Yields above all other of these factors.

Mae'r NFFO yn dweud y dylai'r ymagwedd yn y dyfodol at reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy yn y DU ddysgu o fethiannau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

### Gwaith craffu ffurfiol ar is-ddeddfwriaeth

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Bil yn darparu darpariaethau eang ar gyfer creu is-ddeddfwriaeth, ac mae **Cyswllt Amgylchedd Cymru** yn gofyn am weithdrefn ymgynghori ffurfiol i graffu ar is-ddeddfwriaeth. Dywed:

> Powers provided by the Bill to create secondary legislation could result in major changes to fisheries management measures and should therefore be subject to wider scrutiny, including by stakeholders.





## 5. Crynodeb o'r Ail Ddarlleniad

Cafodd y Bil ei **ail ddarlleniad** yn Nhŷ'r Cyffredin, ar 21 Tachwedd 2018.

Talodd Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, deyrnged i 'natur adeiladol' y trafodaethau â Llywodraeth Cymru, a dywedodd eu bod wedi digwydd yn ddidwyll. Dywedodd y bydd y ddeddfwriaeth yn gweld pwerau'n symud i'r Gweinyddiaethau Datganoledig, gan ddweud y bydd yn wasgariad o bŵer a chryfhau datganoli.

### Pwerau dirprwyedig

Mae'r Bil yn 'Fil galluogi' sy'n cynnwys pwerau dirprwyedig a **Phwerau Harri VIII** helaeth. Yn ystod ail ddarlleniad y Bil, cyfeiriodd sawl Aelod Seneddol at ddiffyg manylion yn y Bil, a mynegodd bryderon hefyd ynghylch y defnydd arfaethedig o'r weithdrefn penderfyniad negyddol a nodwyd mewn perthynas â rhai o'r darpariaethau yn y Bil .

Roedd yr Aelodau Seneddol yn cydnabod bod angen yr ymagwedd hon, ond mynegwyd pryder hefyd ynghylch faint o waith craffu seneddol a wnaed mewn perthynas ag offerynnau statudol (yn enwedig y rheini â gweithdrefn penderfyniad negyddol). Dywedodd Angela Smith AS:

> It is also true that this Bill, like the Agriculture Bill, is enabling and contains a number of Henry VIII powers. Like others in this Chamber, I worry about the use of this mechanism given the lack of effective parliamentary scrutiny that accompanies the use of statutory instruments. I therefore hope the Government will think more carefully about this Bill and allow it to be amended to ensure it gives greater clarity on the direction of travel of our fishing industry.

### Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

O ran yr amserlen i'r DU ddod yn wladwriaeth arfordirol annibynnol o dan UNCLOS a gallu penderfynu ar fynediad at ei dyfroedd a'r cwota, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> A number of Members of this House hoped that in the transition period, when it was agreed earlier this year, the common fisheries policy would be outside, but there is one very significant departure from the overall transition period, which applies to the common fisheries policy, which is that the European Union acknowledged that from 2021 we will be an independent coastal state. Therefore, when we negotiate in the December 2020 Fisheries Council, although we will still legally be a member of the European Union, we will be negotiating then as an independent coastal state.

Gofynnodd yr Aelodau Seneddol am gael cynnwys 'no later than 31 December 2020' yng Nghymal 42 y Bil.

Roedd llawer o'r ddadl yn ymwneud â'r Cytundeb ehangach o ran Ymadael â'r UE a'i heffaith ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, yn enwedig penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch a yw'r DU yn parhau o fewn yr Undeb Tollau. Cyfeiriodd yr Aelodau Seneddol at Sabine Weyand, prif ddirprwy drafodwr yr UE sy'n arwain trafodaethau'r UE ar lefel dechnegol, a ddywedodd y byddai'n rhaid i Brydain 'swallow a link between access to products and fisheries in future agreements'. Roedd consensws yn y Tŷ na ddylai'r DU dderbyn ymrwymiadau'r UE i gysylltu cytundebau masnach yn y dyfodol gyda mynediad awtomatig at ddyfroedd y DU.

## Cyngor ymgynghorol

Cyfeiriwyd hefyd ar sawl achlysur at alwadau'r NFFO am gyngor ymgynghorol ffurfiol i lywio polisi. Mae'r NFFO yn nodi ynddi **dystiolaeth ysgrifenedig** i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus:

> Byddai cynnwys arbenigwyr pysgodfeydd ar y Cyngor Ymgynghorol yn gwarantu bod materion cynaliadwyedd yn cael eu hystyried yn llawn.

Dywedodd Mrs Sheryll Murray AS y byddai'n:

> …like the Government to establish a formal advisory council to guide policy, promote collaboration between central Government, the devolved Administrations and the industry, and allow an ongoing dialogue in what is a naturally variable industry. An advisory council could play a leading role in the use of secondary legislation to ensure an agile and responsive approach to fisheries management.

Ailadroddwyd hyn gan Derek Thomas AS ar ran **Sefydliad Cynhyrchwyr Pysgod Cernyw**, ac ategodd Ian Paisley AS fod cyrff o'r fath wedi bod yn fwyaf buddiol yn Norwy ac Awstralia.





## Mecanwaith datrys anghydfodau

Cododd Liz Saville Roberts AS faterion ynghylch y mecanweithiau ar gyfer ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig a natur y mecanweithiau gwneud penderfyniadau ar y cyd. Dywedodd Melanie Onn AS y byddai'r Bil yn caniatáu i Weinyddiaeth Ddatganoledig gerdded i ffwrdd yn syml drwy ddatgan eu rhesymau ac roedd yn galw am fecanwaith datrys anghydfodau i atal datganiadau ar y cyd o'r fath rhag cwympo.

Yn ei **dystiolaeth ysgrifenedig** i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus, galwodd yr NFFO hefyd am system datrys anghydfodau:

> Where agreement between fisheries administrations cannot be reached or where an administration wishes to depart from the statement contrary to the wishes of another administration, a dispute resolution system should be in place to ensure this does not impact on fisheries

Nododd yr Aelodau Seneddol hefyd y posibilrwydd o wrthdaro pe bai rheoliadau gwahanol yn cael eu cyflwyno gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd.

## Trwyddedu llongau pysgota

Mae Cymal 10 y Bil yn darparu ei bod yn fater i bob cenedl o'r DU drwyddedu ei llongau pysgota ei hun. Roedd hyn yn codi pryderon y byddai'n rhaid i longau sydd am weithredu ledled y DU gael sawl trwydded. Dywedodd y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yn ei sylwadau cloi:

> We have said that, with the consent of the Scottish Government and others, the Marine Management Organisation might issue a single licence for the whole of the UK. Clearly, agreements that are made internationally would be a matter for the UK Government.

Ni roddwyd unrhyw fanylion pellach am y trefniadau ar gyfer cydsyniad o'r fath gan y Gweinyddiaethau Datganoledig na natur y cydsyniad hwn, ac ni wnaed unrhyw ddiwygiad o'r fath yn y **Bil fel y'i diwygiwyd.**

Roedd Deidre Brock AS o'r farn ei bod yn fwy priodol bod y Gweinyddiaethau Datganoledig yn pennu pethau o'r fath.

## Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, nododd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon ar Gymal 18 (sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cwotâu dal ac ymdrech), gan y gallai fod yn berthnasol i stociau sy'n gyfan gwbl o fewn dyfroedd un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Mae'r Memorandwm atodol (a drafodir isod) yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn bod Cymal 18 yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n swyddogaethau a gadwyd yn ôl, ac felly nid yw gofyniad cydsyniad yn briodol. Fodd bynnag, dywed Llywodraeth Cymru nad yw gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig yn fater a gedwir yn ôl, ac mae'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn ystod yr ail ddarlleniad, ni wnaed unrhyw ymrwymiadau pellach mewn perthynas â maint yr ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, dywedodd Deidre Brock AS yn ei chyfraniad y dylid pennu'r cwotâu ar gyfer dyfroedd yr Alban yn yr Alban, yn union fel y dylid pennu'r cwotâu ar gyfer dyfroedd Lloegr yn Lloegr a dyfroedd Cymru yng Nghymru. Dyna beth yw datganoli. Nid ymatebodd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r pryder hwn (ynghylch Cymal 18) yn uniongyrchol, yn lle hynny atebodd gan ddweud:

> The hon. Member for Edinburgh North and Leith (Deidre Brock) mentioned the clause in the Bill that covers the selling of quota rights, and said that the tendering and auction processes should be devolved. They are devolved, and the clause is absolutely explicit that it applies only to England.

Ymddengys bod hyn yn cyfeirio at Gymal 22, sef gwerthu cyfleoedd pysgota yn Lloegr ar gyfer blwyddyn galendr, yn hytrach na Chymal 18.

## Cyllid pysgodfeydd

Soniodd yr Aelodau Seneddol am gyllid grant, gan nodi'r cyllid a oedd ar gael yn flaenorol drwy Gronfa Pysgodfeydd Morwrol Ewrop (y mae'r DU wedi elwa o £190 miliwn ohoni rhwng 2014 a 2020 ac yn cynnwys gwariant ar gasglu data), gan nodi nad oes unrhyw warant yn y Bil y bydd hyn yn cael ei ddisodli.

Holodd Liz Saville Roberts AS ynghylch yr arian ar gyfer pysgodfeydd yn y Weinyddiaeth Ddatganoledig, gan ofyn:

> How will maritime and fisheries funding allocations be allocated after 2020 and can he confirm that that will be needs-based?





Mewn llythyr dyddiedig **10 Rhagfyr 2018**, gan George Eustice AS i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod wedi ymrwymo £37.2 miliwn o gyllid ychwanegol i roi hwb i ddiwydiant pysgota'r DU yn ystod y cyfnod gweithredu. O'r swm hwn byddai £2.4 miliwn ar gael i Gymru, a byddai hyn yn ychwanegol at y Gronfa Pysgodfeydd Morwrol Ewrop bresennol.

At hynny, cyhoeddwyd yn y llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2018:

> ...the Government will put in place new, domestic, long-term arrangements to support the UK's fishing industry from 2021, through the creation of four new schemes comparable to EMFF to deliver funding for each nation of the UK. The Devolved Administrations will lead their own schemes and details will be agreed at the 2019 Spending Review.

Nid oes unrhyw fanylion pellach am drefniadau ariannu yn yr hirdymor.

# 6. Crynodeb o newidiadau'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus

## Gwelliannau Llywodraeth y DU

### Cymal 39 - Cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mewn llythyr at y **Pwyllgor Bil Cyhoeddus**, dyddiedig **5 Rhagfyr 2018**, rhoddodd George Eustice AC, y Gweinidog Gwladol Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wybod i'r Pwyllgor am nifer o welliannau i'r Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU.

Un gwelliant o'r fath yw Cymal newydd i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd ac iechyd pysgod yn y parth alltraeth. Mae'n egluro:

> The Welsh Assembly does not have legislative competence for sea fisheries in the offshore zone, which is the area of sea outside the territorial seas but within the Exclusive Economic Zone – although the Welsh Government do have executive competence in the offshore zone as these have been devolved previously.

Amlygodd y Gweinidog hefyd y bydd y gwelliant technegol hwn yn diwygio'r gwahaniaeth presennol o setliadau datganoli eraill, gan fod gan Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon eisoes gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer pysgodfeydd yn eu hardaloedd alltraeth a'u hardaloedd glannau.

Cytunwyd ar y gwelliant hwn ac mae'n ymddangos fel Cymal 39 - Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn y **Bil fel y'i diwygiwyd**. Mae'r Cymal newydd hwn yn berthnasol i Gymru yn unig ac mae'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol.

Mae'r **dadansoddiad adrannol o'r gwelliannau a wnaed yn ystod cyfnod y pwyllgor** yn nodi fel a ganlyn:

> All other amendments to clauses and schedules, and new clauses, extend and apply to England, Wales, Scotland, and Northern Ireland. None of the amendments have changed the extent or application of the clauses.



**Bil Pysgodfeydd y DU 2017-19:** Crynodeb o'r Bil

### Cymal 40 - Cytundeb pysgodfeydd rhwng y DU a'r UE

Mewn llythyr dyddiedig **10 Rhagfyr 2018**, mae George Eustice AS yn rhoi manylion am welliant y Llywodraeth i'r Bil a fydd yn ymgorffori ei hymrwymiad i sicrhau cyfran decach o gyfleoedd pysgota i bysgotwyr y DU. Dywed y bydd hyn yn cael ei wneud drwy roi rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth y DU i geisio sicrhau cyfran decach o gyfleoedd pysgota na'r hyn sydd gan y DU ar hyn o bryd o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, wrth drafod cytundeb pysgodfeydd gyda'r UE.

Dywedodd y Gweinidog fod y gwelliant hwn yn rhoi pwysau cyfreithiol i'r ymrwymiad i gymryd rheolaeth yn ôl.

Cytunir ar y gwelliant fel Cymal 40 - Cytundeb pysgodfeydd rhwng y DU a'r UE, ac mae'n nodi:

> (1) This section applies if—
>
> (a) the United Kingdom and the EU enter into a withdrawal agreement, and
>
> (b) pursuant to that agreement, the Secretary of State enters into negotiations with the EU, on behalf of the United Kingdom, for an agreement about the management of shared stocks (a "fisheries agreement").

Yn yr un llythyr (dyddiedig 10 Rhagfyr 2018), cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd ei bod wedi ymrwymo £37.2 miliwn o gyllid ychwanegol i roi hwb i ddiwydiant pysgota'r DU yn ystod y cyfnod gweithredu. O'r swm hwn byddai £2.4 miliwn ar gael i Gymru, ac mae hyn yn ychwanegol at y Gronfa Pysgodfeydd Morwrol Ewrop bresennol.

### Cymal 41 - Gwelliannau y gellid bod wedi'u gwneud o dan bwerau presennol

Cyflwynwyd y Cymal newydd hwn a chytunwyd arno ochr yn ochr â nifer o welliannau i Atodlen 3. Diben y gwelliannau hyn, yn ôl llythyr George Eustice dyddiedig **5 Rhagfyr 2018**, yw diwygio'r offerynnau statudol presennol sy'n ymwneud â thrwyddedu llongau sydd ar hyn o bryd yn gymwys i gychod Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel eu bod hefyd yn gymwys i gychod tramor, a gwelliannau canlyniadol i hynny.

Mae'r Cymal newydd fel a ganlyn, ac mae'n egluro'r newidiadau hyn:

> (1) Where—
>
> (a) any provision of this Act amends or revokes subordinate legislation, and
>
> (b) the amendment or revocation could have been made under a power conferred by an enactment,
>
> the amendment or revocation is treated, for the purpose of making further provision under that enactment, as having been made under it.
>
> (2) In this section—
>
> "enactment" has the same meaning as in the European Union (Withdrawal) Act 2018;
>
> "subordinate legislation" has the same meaning as in the Interpretation Act 1978.

Yn ei lythyr at y Pwyllgor, dywed George Eustice fod y gwelliannau hyn yn sgil trafodaethau helaeth gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Nid yw'r dyddiad ar gyfer cam nesaf y broses ddeddfwriaethol, adroddiad Tŷ'r Cyffredin, wedi'i gyhoeddi eto.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

Ar 10 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol** ar y Bil. Mae'r Memorandwm atodol yn cyfeirio at y materion a amlinellir uchod ynghylch cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gwelliannau i *Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*, a Chymal 18 y Bil.

O ran cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cyfeirio at y gwelliannau i'r Bil a amlinellir uchod, a'r Cymal 39 newydd.

O ran y gwelliannau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir, mae'r Memorandwm atodol yn dweud bod Llywodraeth Cymru mewn trafodaeth â Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o sicrhau gwelliant yn ddiweddarach ym mhroses y Bil.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, nododd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf nad yw Llywodraeth Cymru yn fodlon ar Gymal 18 (sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cwotâu dal ac ymdrech). Mae'r Memorandwm atodol yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn bod Cymal 18 yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol sy'n swyddogaethau a gadwyd yn ôl, ac felly nid yw cydsyniad yn ofynnol. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn mynd ymlaen i nodi fel a ganlyn:





> Mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddatblygu, mireinio ac ymrwymo i gytundebau rhyngwladol gan fod y mater hwnnw'n un sydd wedi ei gadw'n ôl. Fodd bynnag, nid yw gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli yn fater sydd wedi ei gadw'n ôl, ac mae o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cadarnhawyd hynny gan y Goruchaf Lys yn Reference of the UK Withdrawal from the EU (Legal Continuity) (Scotland) Bill [2018] UKSC 64. Gan fod y term "International Obligations" (a ddefnyddir yn y Bil) yn eang ac oherwydd y gallai fod yn cwmpasu gweithredu cytundeb o'r fath, mae'r Cymal yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol ac felly, mae angen cydsyniad y Cynulliad.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn dweud y bydd arfer y swyddogaeth hon yn ddarostyngedig i'r Cytundeb Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd y mae'r holl weinyddiaethau pysgodfeydd yn y DU yn bwriadu cytuno arno wrth i Brydain ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ni ddarparwyd rhagor o fanylion am y Cytundeb.

Mae'r Memorandwm atodol hefyd yn cynnwys adran ar newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm cyntaf y mae angen cydsyniad ar ei gyfer. Mae hyn yn cynnwys cymhwysedd (a amlinellwyd yn flaenorol). Mae hefyd yn cynnwys:

- Cymal 41 newydd sy'n gwneud ychwanegiad technegol i'r Bil drwy ddarparu bod unrhyw welliannau i is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Bil, ac a allai fod wedi'u gwneud o dan ddeddfiad arall, yn effeithiol fel pe baent wedi'u gwneud o dan y deddfiad hwnnw;
- Mae paragraff 5 o Atodlen 3 i'r Bil wedi'i ddiwygio i wneud rhagor o newidiadau i *Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Cadwraeth) 1967* sy'n darparu y bydd cyfeiriadau at 'British fishing boat' yn y Ddeddf honno a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig yn cynnwys 'foreign fishing boat'. Mae hyn i sicrhau y bydd Deddf 1967 a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â'r un peth yn berthnasol yn gyfartal i gychod pysgota domestig y DU a chychod pysgota tramor; ac

- Ar gais Llywodraeth Cymru, mae paragraff 12 newydd wedi'i ychwanegu at Atodlen 3 y Bil i ddiwygio *Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994*. Mae'r rheoliadau'n gymwys o hyd yng Nghymru ond nid ydynt yn caniatáu ar hyn o bryd am roi gwybod i ddeiliaid trwydded am newidiadau i drwyddedau a hysbysiadau drwy eu cyhoeddi ar wefan. Mae deddfwriaeth gyfatebol sy'n ymwneud â thrwyddedau a hysbysiadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon eisoes wedi'i diwygio i'r perwyl hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y newid hwn yn hanfodol i weithrediad y gyfundrefn rheoli pysgodfeydd newydd yn syth ar ôl i ddarpariaethau'r Bil perthnasol ddod i rym a dyma'r unig ffordd ymarferol o sicrhau bod y gwelliannau i Reoliadau 1994 yn dod i rym ar yr amser angenrheidiol i gynnwys y newidiadau hyn yn y Bil.

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol hefyd yn amlinellu gwelliannau pellach i'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn eu trafod â Llywodraeth y DU. Mae'r rhain yn cynnwys diwygiad i'r pŵer gwneud gorchymyn interim a nodir yn Adran 136 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion dros dro at ddibenion rheoli pysgodfeydd mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn ymwneud â diogelu Parth Cadwraeth Morol (neu barth a all gael ei ddynodi fel Parth Cadwraeth Morol) yn unig. Dywed y byddai'r gorchmynion dim gweithdrefn hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru weithredu'n gyflym ac yn ymatebol i atal niwed posibl i'n hamgylchedd morol tra bod mesurau mwy priodol yn cael eu datblygu yn y ffordd arferol.

Yn ei **llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n cyd-fynd â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol,** dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

> Rwyf yn disgwyl gosod Memorandwm Atodol arall yn nes ymlaen yn ystod proses y Bil, ar ôl cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU am welliannau pellach a chyn cyflwyno dadl yn y Cynulliad er mwyn iddo gael ystyried rhoi ei gydsyniad i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.